

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 7

Key language

Ga i
Gei di
Gawn ni
Gaiff o/e/hi
Gawn ni
Gewch chi
Gân nhw

New words

lapio (NW)	to wrap
rhag ofn	in case
gwydryn	a glass
sylweddoli	to realise
magu	to be brought up
yn enwedig	especially
trefnus	organised
llwyd	grey
amau	to doubt
cyfrifol	responsible
matsien	a match
agos	near
clebran	to chat
glou (SW)	quickly
teganne	toys
golwg	sight
niwed	damage
mofyn (SW)	to fetch
talcen	forehead
crynu	to shake
gwenwyn	poison
penysgafn	light headed
gorwedd	to lie
ysgafn	light
drewi	to smell
cwsmer	customer
perthynas	relationship
iach	healthy
hogia (NW)	boys

Main Grammatical Points

Do you remember the vocabulary relating to Bonfire Night?

Noson Guto Ffowc	Guy Fawkes Night
tân gwyllt	fireworks
coelcerth	a bonfire

And here's an important word for you - cynnau - to light a fire - cynnau tân.

And some more important phrases for bonfire night

Gan bwyll - steady on - gan bwyll

Bydd yn ofalus - Be careful
Rhag ofn inni gael damwain - In case we have an accident

Rhag ofn - in case

Note the present short form of cael. You are aware I'm sure of the form Ga i - Can I have or May I have and the answer Cei and Na Chei. Brian says to his son Rhodri: Gei di nhw rwan - You can have them now.

The full forms are

Ga i	I can have
Gei di	You can have
Gaiff e/o neu hi	He/She can have
Gawn ni	We can have
Gewch chi	You can have
Gân nhw	They can have

The focus moves back to the hospital:

Here are some more useful words used in the hospital:

Niwed - damage
Methu stopio crynu - can't stop shaking
Gwenwyn - poison
Rhag ofn - in case
Pen ysgafn - light headed
Teimlo - to feel
Gorwedd - to lie down
Gwely/gwlâu - bed/beds

Note that when Brian talks to his son Rhodri he uses the word CHDI

Brian - Dyma i chdi roced a hanner

In north Walian dialect chdi is often heard instead of ti - you.
Well i chdi fynd i agor y drws -You'd better go and open the door.

Dy frawd a chdi - your brother and you.

Ysbyty Brynaber: Episode 19

Brian's call on his mobile phone revealed exactly what he was up to on his trips to Birmingham! It's bonfire night and Arwyn and Jenny have been invited over to a fireworks display at Brian and Agnes' house.

Geirfa

lapio (NW)	to wrap
rhag ofn	in case
gwydryn	a glass
sylweddoli	to realise
magu	to be brought up
yn enwedig	especially
trefnus	organised
llwyd	grey
amau	to doubt
cyfrifol	responsible
matsien	a match
agos	near

Golygfa 1

Rhodri - Come on, Dad, Come on!
Brian - Gan bwyll! Dw i yn trio fy ngorau, hogyn...
Rhodri - Wy eisiau rhagor o catherine wheels!
Brian - Gei di nhw rwan...
Rhodri - Come on 'te!
Brian - Aros imi agor y bocs 'ma gynta...
Brian - Pam mae petha wedi eu lapio mor uffernol o dynn dyddia yma? Mam bach!
Hwn ydy'r bocs nes i brynu ichdi yn Birmingham...Dyma ichdi roced a hanner.
Rhodri - Wow!
Brian - Dw i'n siwr bydd hon yn cyrraedd lwerddon heno!
Agnes - Bydd yn ofalus nawr, Brian...
Brian - Gofalus? Mi ydw i siwr iawn...
Agnes - Na. Pam ewch chi'ch dau ddim mas o'r conservatory rhag ofn inni gael damwain gyda'r tân gwyllt 'ma?
Brian - Ti am ddod hefo ni i'r ardd, Arwyn?
Agnes - Beth am adael i Arwyn fod am funud? Ma' fe wedi cynnau llond y ddau focs 'na brynes i'n barod...
Arwyn - Na, na. Sdim ots 'da fi fynd mas i gynnu rhagor...
Agnes - Steddwch chi fan hyn gyda'ch gwydryn gwin nawr...
Arwyn - Ma' Jenny'n hir...Ble aeth hi?
Agnes - Lan i'r ty bach, wy'n credu...
Agnes - Mae'r achos llys 'ma'n pwyso'n drwm arni on'd yw e?
Arwyn - Ydy, yn anffodus. Ond efalla caiff hi newyddion da wthnos 'ma...does dim dal sut mae'r pethau ma'n gweitho...
Agnes - O? Beth 'te?
Arwyn - Mae honna'n goelcerth a hanner...
Agnes - Ydy...
Arwyn - Ac mae 'na dipyn o wres yn dod ohoni hefyd...
Agnes - Oes. Wy'n gallu ei deimlo fe o fan hyn...Brian a Rhodri fuodd wrthi'n adeiladu ers wthnosau...
Arwyn - Mae Rhodri yn tyfu'n fachgen mawr.
Agnes - Fydd e'n wyth oed mis nesa 'ma nawr. A Beca'n bedair ers mis Awst. Mae cael plant yn gwneud ichi sylweddoli fel mae amser yn hedfan.
Arwyn - Pam y busnes 'chi' 'ma? Beth am alw'n gilydd yn ti, Agnes?
Agnes - Wy'n ffeindio hi'n anodd. Ges i fy magu i alw pawb henach na fi yn 'chi.'
Arwyn - Newidia'r habit. A plis galw fi'n ti...
Agnes - O'r gore 'te. O heno mlaen.

Arwyn - I'r dim.

Agnes - Ond mewn lot o ffyrdd, wy'n hen ffashiwn iawn. Dyna pam dw i mor strict, mae'n siwr. Yn enwedig ar y ward. Ond gyda nyrsus mae rhaid i rywun fod.

Arwyn - Mae hi'n bwysig eu cadw nhw mewn trefn.

Agnes - Ydy. A dw i eisiau i bopeth ar y ward gael i wneud yn drefnus ac yn daclus...

Arwyn - Fel pin mewn papur.

Agnes - Ie. Dyna chi...

Arwyn - Ah! Ah! Ah! Ah! Ah! Beth ddwedais i?

Agnes - Sori. Fel pin mewn papur. Dw i'n licio'r ymadrodd 'na. Ti ddim? Mae rhywbeth yn dwt iawn ag yn lan iawn amdano fe, on'd oes e? Fel pin mewn papur.

Arwyn - Fel pin mewn papur. Mmmm. Dw i'n cytuno. Mmmm. Ma'r gwin yma'n dda...

Agnes - ydy. Dw i'n cytuno â chi, Arwyn.

Arwyn - 'Ti,' Agnes. 'Ti.' Plis galw fi'n 'ti'. Onest nawr: ond mae chi yn gwneud i fi swno mor hen. A dim ond pedwar deg chwech ydw i.

Agnes - Pedwar deg chwech? Wir? Ti ddim yn edrych yn bedwar deg chwech i fi...

Arwyn - Yffach! Nag ydw i?

Agnes - Na.

Arwyn - Wel, wy'n teimlo'n bedwar deg wech te. Edrycha'r gwallt 'ma i ddechrau.

Agnes - O, twt...

Arwyn - Na, na. Edrycha pa mor llwyd yw e ffordd hyn - a rownd cefn 'y mhen i'n fan hyn...

Agnes - Ddim mor llwyd â hynny...Jenny? Ble ti wedi bod? Rôn i'n dechrau amau dy fod ti wedi mynd ar goll...

Jenny - Fyny yn y ty bach...Fy stumog i...Yn troi rownd.....

Arwyn - Rhywbeth ti wedi'i fwyta, ti'n meddwl?

Agnes - Gobeitho taw ddim y beef burgers 'na sy'n gyfrifol...

Arwyn - Ti'n well nawr 'te?

Jenny - Ydw, ydw...

Jenny - Maen nhw eu dau yn cael hwyl...

Agnes - Wrth eu boddau. A Brian yn fwy na Rhodri, ddweden i - o'r wên sy ar ei wyneb e, ta beth.

Arwyn - Pethau anodd i'w gosod ydy'r bangars 'na...

Jenny - A dôn i ddim yn gallu eu cynnau nhw o gwbl...

Arwyn - Wnaeth ffiws yr un ddwetha 'na ddim cynnau chwaith.

Agnes - Rhodri - symuda nôl...Ti'n lot rhy agos...

Brian - Papur y ffiws sy' heb gynnu...

Agnes - Brian...

Brian - Be?

Agnes - Dwed wrth Rhodri am symud nôl damaid bach...

Brian - Dyna'r pedwerydd 'dud' heno...Dydy'r fireworks yma wnes i brynu yn Birmingham yn dda i ddim...

Arwyn - Brian, ti eisiau help?

Brian - Na. Dw i'n iawn...Dria i gynnu'r 'dud yma eto hefo'r fatsian coes hir 'ma...

Arwyn - Paid â trio-

Brian - Dw i'n iawn...

Agnes - Rhodri, dere 'ma nawr!

Arwyn - Brian, watshia'r crwt mae fe'n rhy agos -

Agnes - Rhodri! Paid â mynd mor -

Ysbyty Brynaber: Episode 20

The bonfire party ended with a great bang!

Geirfa

clebran	to chat
glou (SW)	quickly
teganne	toys
golwg	sight
niwed	damage
mofyn (SW)	to fetch
talcen	forehead
crynu	to shake
gwenwyn	poison
penysgafn	lightheaded
gorwedd	to lie

Golygfa 1

Wendy - ...Sori, Dic ond sdim twenty p arall 'da fi...Bydd rhaid i fi fynd off y ffôn nawr...A ti hefyd...Lot o snogs...le...Gewn ni chat arall am y court case 'fory...

Agnes - Nyrs! Nyrs!

Wendy - Sori, Dic. Got to go. Maer old battle axe back on the scene...Twdl-w!

Agnes - Beth chi'n wneud ar y ffôn, Nyrs Keating? Chi fod yma i weithio - ddim i glebran...Pa ddoctoriaid sy'n gweithio heno?

Wendy - Ym...

Agnes - Dewch, dewch - glou!

Wendy - Doctor Maurensig...Doctor Lloyd a Doctor Borges...

Agnes - Ewch i nôl un ohonyn nhw...Glou! Ewn ni i un o'r ciwbicyls...

Wendy - O.K.

Agnes - Mewn fan hyn...Dyna ni... eistedd ar y gadair 'na...

Agnes - Ddim tegannau yw tân gwyllt.

Brian - Dw i'n gwybod...Does dim rhaid ichdi ddeud...

Agnes - Ac mae e'n dweud yn glir ar bob bocs: 'Never relight a dud.'

Brian - Dyna pam nes i hefo matshian hir.

Agnes - Edrycha'r golwg arnot ti, Brian...

Brian - Golwg y diawl, mae'n siwr?

Agnes - Bydd blisters ar dy dalcen fory yn bendant...Lwc wnes ti ddim niwed i dy lygaid di...

Agnes - Dangos dy ddwylo i fi eto...

Brian - Mae'r lle ma'n oer.

Agnes - Nawr tro dy wyneb at y golau...

Brian - Dw i methu stopio crynu...

Agnes - Ti sy'n o'r. Nid yr ysbyty. Achos bod ti mewn sioc.

Agnes - Second degree burn, ddweden i.

Brian - Mae o'n teimlo'n ddigon poenus beth bynnag.

Agnes - Ond wedyn, dw i ddim yn ddoctor. Efallai ei fod e'n waeth. Gewn ni wybod yn y funud nawr...

Agnes - Aros fan hyn.

Brian - Lle ti'n mynd?

Agnes - I mofyn acetaminophen iti...

Brian - Be ydy peth felly?

Agnes - Pain-killer. Fyddi di'n teimlo lot yn well ar ôl cael peth...A dw i bron yn siwr bod rhaid iti gael tetanus jab. Jyst rhag ofn...

Brian - Rhag ofn be?

Agnes - Bod rhyw wenwyn ym mhowdwr y bangar 'na...

Wendy - Sister Rees? Ble ych chi?

Brian - Aeth hi i nôl rhyw pain-killers...

Wendy - Hei, - steady on nawr - ti'n O.K.?

Brian - Jyst teimlo ychydig yn benysgafn...

Wendy - Pam nei di ddim gorwedd i lawr fan hyn?
 Brian - Na, dwi'n iawn...Dwi am sefyll...A cerddad o gwmpas...
 Wendy - Well iti orwedd, ti'n gwbod...
 Brian - Dwi eisiau trio cadw fy hun yn gynnes...Yn lle mod i'n teimlo mor oer.....
 Wendy - Bydd yn ofalus 'te...Oh, God. He's fainted on me...Help! Somebody help me!

Golygfa 2

Jenny - Beth ti'n 'neud mas fan hyn o hyd?
 Arwyn - Edrych ar y goelcerth 'ma'n marw.
 Jenny - Ffoniodd Agnes o'r 'sbyty wedyn?
 Arwyn - Ddim eto. Shwt ma' Rhodri a Beca?
 Jenny - Yn eu gwlaau a'r gola i ffwrdd. Ond dw i ddim yn meddwl cysgan nhw'n hawdd...
 Ddeudwn i fod Brian yn second degree case. Ti'm yn cytuno?
 Arwyn - Mmmm. 'Falle. O'dd dipyn o 'laceration'...'Show off.' Weles ti shwt o'dd e Brian yn handlo'r bangers a'r catherine wheels 'na? Idiot! Ond beth o'dd y pwynt gweud dim byd wrtho fe? O'dd e'n gwrando dim.
 Jenny - Na...Gwrando dim...
 Arwyn - Mewn trwy un glust a mas trwy'r llall...Ma fe'n lwcus chollodd e mo'i olwg...Twpsyn.
 Jenny - Dan ni gyd wedi 'neud pethe twp yn y'n hamser.
 Arwyn - A lwc chafodd Rhodri mo'i anafu.
 Jenny - Hogyn annwyl...
 Arwyn - Ody.
 Jenny - A'i chwaer o hefyd...Biti na fasa ni wedi ca'el plant...Oedd dy fam wastad isio bod yn nain.
 Jenny - Ti'n dawel iawn? Am be ti'n meddwl?
 Arwyn - Dim. Dere. Ewn ni mewn. Ma' hi wedi mynd yn oer mas 'ma fan hyn yn yr ardd.

Ysbyty Brynaber: Episode 21

Brian's injuries were not as bad as first thought. He has been discharged from hospital and insists that he is fit for work.

There's a knock on the front door - It's Arwyn Saunders and he's in a bit of a state!

But first Agnes and Brian...

Geirfa

ysgafn	light
drewi	to smell
cwsmer	customer
perthynas	relationship
iach	healthy
hogia (NW)	boys

Golygfa 1

Brian - Agnes - beth ti'n wneud?

Agnes - Brecwast hwyr.

Brian - Brecwast am un ar ddeg y bore yn y gwely - neis iawn.

Agnes - Brecwast ysgafn...Sudd oren, tost a dau pain killer.

Brian - I'r dim. Beth arall sy' ei eisiau ar ddyn?

Agnes - Sut wyt ti'n teimlo erbyn hyn?

Brian - O.K. Dw i'n teimlo'n well na dw i'n edrych, dw i'n siwr...

Agnes - Well i fi newid bandage dy ddwylo di...

Brian - Gad imi gael fy mrecwast gynta...

Agnes - A dyma ti....Gen Rhodri a Beca...

Brian - Beth ydy o?

Agnes - Carden. Yn gobeitho byddi di'n teimlo'n well...

Brian - Doniol.

Agnes - Wnaethon nhw fe neithwr...

Brian - Aeth y ddau i'r ysgol?

Agnes - Do...

Brian - Mmmm. Mae'r tost 'ma'n dda.

Agnes - Gwd.

Brian - Dw i am fynd i'r gwaith wedyn...

Agnes - Gwaith?

Brian - Ydw...

Agnes - Ti'n siwr?

Brian - Yn berffaith siwr.

Agnes - Oes rhaid iti?

Brian - Oes. Dw i wedi trefnu i gyfarfod cwsmer...Ti'n cofio'r boi 'na rois i lifft iddo fo at y trên o Trade Fair Birmingham?

Agnes - Y smociwr trwm 'na?

Brian - Dyna chdi...Dw i fod i'w gyfarfod o am un o'r gloch...Dw i'n siwr y do i nôl yn drewi o fwg ffags heno eto...

Be sy'? Pam ti'n edrych fel'na?

Agnes - Cwsmer? Ddwedest ti taw salesman oedd e

Brian - Do, dwad?...Cwsmer? Salesman? Dwi ddim yn cofio...Ond cwsmer ydy Jac...

Agnes - Jac?

Brian - Ia...

Agnes - All rhywun arall ddim cwrdd a Jac 'te?

Brian - Dim ond hefo fi bydd o'n delio. Fydd bois eraill y show room ddim yn cael look-in. Mae ganddon ni berthynas dda. A gobaith am gomisiwn mawr i mi....

Agnes - Wel, os ti'n siwr bo' ti'n ddigon iach i fynd...

Brian - Siwr bydd yr hogia yn chwerthin am 'y mhen i bora 'ma. Alla i glwad y jôcs rwan...

Agnes - Jocs? Fel beth?

Brian - Petha fel... 'Pwy ydy'r boi sy wastad yn mynd hefo bang yn y garej yma? Brian Rees...'
 Pwy sy 'na? Postman?
 Agnes - Mae e wedi bod.
 Brian - Cer i'r ffenestr i weld...
 Agnes - Wy'n credu taw Arwyn Rees yw e...
 Brian - Arwyn Rees?
 Agnes - Ie.
 Brian - Well ichdi fynd lawr i agor y drws...
 Agnes - Arwyn - shwmai...?
 Arwyn - Agnes - wn i ddim beth i wneud...
 Agnes - Dere mewn...Beth sy?
 Arwyn - Jenny.
 Agnes - Beth amdani?
 Agnes - Dere draw fan hyn i eistedd...
 Brian - Arwyn - 'dyma sypreis...
 Arwyn - Mae hi ar goll...
 Agnes - Ar goll, missing?
 Arwyn - Ydy...
 Brian - Pwy sy ar goll?
 Agnes - Ti'n siwr?
 Arwyn - Ydw!
 Agnes - Ers pryd?
 Arwyn - Ers...wel...ers...emmm...wy ddim yn siwr...Neithwr...Ganol nos...Neu efallai yn gynnar bore
 'ma...Ond mae'r car wedi mynd...Ac i ddechrau rôn i'n meddwl 'i bod hi wedi mynd mas i
 siopa...Wedyn i'r 'sbyty efallai...
 Brian - Sori? Ond pwy sy ar goll?
 Agnes - Jenny...
 Brian - Jenny?
 Arwyn - Ie.
 Agnes - Y busnes achos llys 'ma dydd Mercher nesa...Dyna beth sy'n pwyso ar ei meddwl hi yntê?
 Arwyn - Ie...Ma'r cyfan wedi bod yn straen ofnadwy...
 Brian - Ddwedodd Agnes wrtha i fod Jenny'n poeni yn ofnadwy am y peth.....Wnaeth hi ddim
 mwynhau ei hun yma Noson Guto Ffowc naddo?
 Agnes - Roedd hi'n cwyno bod bola tost 'da hi...
 Arwyn - Gobeitho ei bod hi ddim wedi gwneud rhywbeth twp...
 Agnes - Reit. Beth wnawn ni?
 Brian - Ffonio'r polis?

Synopsis

Arwyn and Jenny were invited over to Agnes and Brian's house to celebrate bonfire night. Brian was badly burnt as he attempted to ignite a firework. He was rushed to hospital. After treatment he was allowed home and insisted that he was well enough to go on an arranged visit to Birmingham.

Arwyn Saunders had turned up at the house in a distressed state saying that his wife Jenny has gone missing.

Test yourself

1. Translate 'We can have' into Welsh
 - a) **Gawn ni**
 - b) Ga i
 - c) Gaiff hi
2. Translate 'You can't turn the clock back' into Welsh
 - a) **Alli di ddim troi'r cloc yn ôl**
 - b) Alliff hi ddim troi'r cloc yn ôl
 - c) Allwn ni ddim troi'r cloc yn ôl
3. What is the Welsh for 'not a murmur'?
 - a) Swn ofnadwy
 - b) Swn bach
 - c) **Dim siw na miw**
4. What is the correct 'Yes' response to the sentence - 'Cymraes wyt ti' ?
 - a) Ydw
 - b) **Ie**
 - c) Do
5. What's the word in Welsh for 'obvious'?
 - a) aml
 - b) **amlwg**
 - c) anaml
6. How would you translate the Welsh phrase 'on my own'?
 - a) **ar fy mhen fy hun**
 - b) ar fy nhroed fy hun
 - c) yn fy meddwl fy hun